

## Canllaw Ffynhonnell Rhif 4

### EWYLLYSIAU A CHOFNODION PROFIANT

#### BETH YW EWYLLYSIAU A CHOFNODION PROFIANT?

Mae **ewyllysiau a llythyrau testament** yn ddogfennau cyfreithiol. Maent yn cofnodi dymuniadau unigolyn ar gyfer eu meddiannau ar ôl iddynt farw. Gelwir eu heiddo a'u meddiannau yn 'ystâd' a'r unigolyn sy'n gwneud yr ewyllys yw'r 'cymynnwr' neu'r 'gymynwraig'. **Profiant** yw'r broses lle caiff ysgutor(iaid) yr ewyllys eu penodi i weinyddu ystâd y sawl sydd wedi marw. Dim ond os yw'r ystâd yn un eithaf sylweddol y mae hyn yn angenrheidiol ac mae'n bosibl na fydd unrhyw gofnodion profiant yn bodoli ar gyfer pobl a fu farw gan adael ychydig iawn o feddiannau neu ddim o gwbl. Mae mathau o gofnodion profiant yn cynnwys bondiau; codisiliau; llythyrau gweinyddu; a rhestrau eiddo.

Cyn 12 Ionawr 1858, roedd ewyllysiau yn cael eu profi a llythyrau gweinyddu'n cael eu rhoi mewn **llysoedd eglwysig** yng Nghymru a Lloegr ac roedd gan bob un ei ardal awdurdodaeth ei hun. Roedd y llys a oedd yn cael awdurdodaeth ar gyfer achos penodol yn dibynnu'n bennaf ar y lle y bu'r unigolyn farw a maint a lleoliad ei ystâd. **Llys Consistori Llanelwy** oedd yn gyfrifol am brofi a gweinyddu yn y mwyafrif o blwyfi yn siroedd Dinbych, Y Fflint a Threfaldwyn, a rhai plwyfi ym Meirionydd, Caernarfon a Swydd Amwythig.

**Nid oedd plwyf Penarlâg yn cael ei reoli gan unrhyw esgob.** Gan hynny roedd gan y rheithor hawl i brofi ewyllysiau yn llys yr eglwys (a gynhaliwyd yn eglwys y plwyf ym Mhenarlâg). Roedd Penarlâg a phlwyfi deheuol datgysylltiedig Sir y Fflint ym Maelor Saesneg yn dod o dan awdurdodaeth **Llys Consistori Caer**.

Yn 1648, daeth Llys Consistori Llanelwy i ben ac yn ystod y Gymanwlad, 1653-1660, Llys Comisiwn Sifil Llundain oedd yn ymgymryd â phrofiant yng Nghymru a Lloegr. Ar ôl yr Adferiad, dychwelodd y busnes profiant i awdurdodaeth llysoedd yr eglwys. Yn 1858 trosglwyddwyd y cyfrifoldeb gan y llysoedd eglwysig i system cofrestrau profiant sifil mwy syml.

Roedd gan rai pobl gyfoethog dir ac eiddo mewn mwy nag un archddiaconiaeth neu esgobaeth. Yn yr achosion hyn, mae'n bosibl y byddai eu hewyllysiau wedi cael eu profi yn **Llys Uchelfraint Efrog** ac maent yn bellach yn **Sefydliad Borthwick** (yn dyddio o 1389-1857). Roedd **Llys Uchelfraint Caergaint** yn profi ewyllysiau pobl oedd yn berchen ar dir neu eiddo mewn mwy nag un dalaith. Hwn oedd y llys â'r statws uchaf yn y wlad ac roedd yn cael blaenoriaeth dros yr holl lysoedd eraill. Caiff ewyllysiau a brofwyd yn y llys hwn (yn dyddio o 1383-1857) eu cadw yn yr Archifau Cenedlaethol erbyn hyn.

Caiff ewyllysiau Eglwys Neilltuedig Penarlâg a'r rheiny a brofwyd yn Llysoedd Consistori Llanelwy a Chaer **cyn 1858 eu cadw yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth**, a cheir mynegai llawn ar eu cyfer ar y silffoedd agored yn yr Ystafell Chwilio.

**Ar ôl 1858**, roedd pob ewyllys yn cael ei phrofi mewn system profiant sifil canolog a dylech ddod o hyd i fanylion naill ai yng Nghofrestrfa Profiant Cymru yng Nghaerdydd, neu mewn cofrestrfa profiant ardal. **Atodir rhestr o gyfeiriadau defnyddiol i gael ewyllysiau yng Nghymru a thu hwnt gyda'r canllaw ffynhonnell hwn.**

### **BETH ALLAF EI DDARGANFOD O EWYLLYSIAU A CHOFNODION PROFIANT?**

Mae ewyllysiau yn ffynhonnell wybodaeth ardderchog i ymchwilwyr hanes teulu gan y gallant ddarparu manylion am:

- Eu perthynas ag aelodau'r teulu; enwau gŵyr a gwragedd, meibion, merched, teulu yng nghyfraith ac wyrion ac wyresau.
- Eu perthynas â gweision – efallai y bydd rhai ohonynt wedi derbyn cymynrodd.
- Swydd y cymynnwr – efallai y bydd wedi gadael offer ei grefft/masnach i'w deulu.
- Cyfoeth y cymynnwr gan y byddai ei (h)ystad wedi'i restru a'i brisio.
- Lle claddwyd y sawl a fu farw gan fod ewyllysiau yn cyfeirio at y lle yr oedd y cymynnwr yn dymuno cael ei gladdu ambell waith.
- Gall rhestrau eiddo roi gwybodaeth ryfeddol a manwl am y mathau o ddodrefn ac offer tŷ a ddefnyddiwyd ar yr adeg pan wnaethpwyd yr ewyllys.

Sylwch y bydd dyddiad unrhyw gofnodion profiant sy'n bodoli yn hwyrach na dyddiad marwolaeth y cymynnwr a dylech ddod o hyd i gofnodion profiant o fewn 3 blynedd ar ôl dyddiad marwolaeth y cymynnwr fel arfer. Os na allwch ddod o hyd i gofnodion o fewn y rhychwant amser hwn, gallwch gymryd yn ganiataol nad oedd profiant yn angenrheidiol.

### **SUT ALLAF DDEFNYDDIO EWYLLYSIAU YN SWYDDFA GOFNODION SIR Y FFLINT?**

Cedwir nifer o ewyllysiau Sir y Fflint yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth. Fodd bynnag, mae gennym rai ewyllysiau yn Swyddfa Gofnodion Sir y Fflint. Mae'r mwyafrif ohonynt wedi cael eu rhoi i ni ymysg casgliadau mwy, megis casgliadau ystadau. **Ceir mynegai ar wahân ar gyfer ewyllysiau ar silffoedd agored yr ystafell chwilio.** Maent wedi'u trefnu yn ôl trefn y wyddor ac mae'r mynegai'n rhoi manylion megis enw, cartref a swydd y cymynnwr a'r fwyddyn pan wnaethpwyd yr ewyllys. Bydd y mynegai yn rhoi cyfeirnod unigol i bob ewyllys. Mae angen i chi nodi'r cyfeirnod ac yna edrych yng nghatalog mwy manwl y casgliad perthnasol ac ar silffoedd agored yr ystafell chwilio am wybodaeth bellach. Gallwch neilltuo pob ewyllys unigol yn defnyddio **ffurflen ymgeisio am ddogfen**. Ysgrifennwch gyfeirnod y ddogfen (ynghyd ag enw, rhif eich sedd a'r dyddiad) ar y ffurflen. Dylech ei chyflwyno wrth y ddesg ymholiadau er mwyn neilltuo cofnodion.

### **GWYBODAETH BELLACH:**

Gwelir gwybodaeth am ewyllysiau a brofwyd yn Llys Eglwys Neilltuedig Penarlâg, 1554-1800, a mynegai ar eu cyfer yng Nghyhoeddiadau Cymdeithas Hanesyddol Sir y Fflint, Cyf. 4, 1906, ar silffoedd agored yr ystafell chwilio. Mae gennym hefyd Fynegai i Ewyllysiau (Cenedlaethol), 1853-1857; Calendr Profiant Cenedlaethol, 1858-1935; mynegeion i Ewyllysiau Bangor, 1664-1883; Ewyllysiau Llandaf, 1746-1832; Ewyllysiau Dewi Sant, 1564-1858; a mynegeion i Ewyllysiau Llys Uchelfr faint Caergaint (P.C.C.), 1853-1857, ar microfiche. Gofynnwch i aelod o staff os hoffech ddefnyddio'r darlennydd microfiche.

Mae'r llyfrau canlynol ar gael yn yr ystafell chwilio sy'n cynnwys gwybodaeth am ewyllysiau a sut i'w defnyddio:

Rowlands, J. (gol.). *Welsh Family History: A Guide to Research*. Dyfed. 1993. Pennod 13: *Wills and Other Records of Inheritance*.

Gibson, J. *Probate Jurisdictions: Where to Look for Wills*. Rhifyn 1af. Birmingham. 1994.

Milward, R. *A Glossary of Household, Farming and Trade Terms from Probate Inventories*. Chesterfield. 1986.

Gallwch edrych ar wefan yr Archifau Cenedlaethol hefyd, [www.nationalarchives.gov.uk](http://www.nationalarchives.gov.uk) sy'n cynnwys adran ddefnyddiol am ewyllysiau.

Mae gan Wasanaeth Llys Ei Mawrhydi (GLIEM) ganllaw i gael cofnodion profiant ar eu gwefan hefyd: [www.hmcourts-service.gov.uk](http://www.hmcourts-service.gov.uk)

## **CYFEIRIADAU DEFNYDDIOL I GAEL GAFAEL AR EWYLLYSIAU**

### **SWYDDFA COFRESTRU PROFIAANT AR GYFER GOGLEDD CYMRU: CAERDYDD**

Cofrestrfa Profiant Cymru

Blwch SP 474

2, Park Street

Caerdydd, CF10 1TB

Ffôn. 02920 376479

e-bost: [cardiff.dpr@hmcourts-service.gsi.gov.uk](mailto:cardiff.dpr@hmcourts-service.gsi.gov.uk)

### **IS-GOFRESTRFA PROFIAANT AR GYFER GOGLEDD CYMRU: CAERNARFON**

Is-Gofrestrfa Profiant Caernarfon

The Criminal Justice Centre

Llanberis Road

Caernarfon, Gwynedd

LL55 2DF

Ffôn. 01286 669755

e-bost: [CaernarfonPSRenquiries@hmcts.gsi.gov.uk](mailto:CaernarfonPSRenquiries@hmcts.gsi.gov.uk)

### **IS-GOFRESTRFA PROFIAANT AR GYFER SWYDD CAER: CAER**

Chester Probate Sub-Registry

5<sup>th</sup> Floor

Hamilton House

Hamilton Place

Chester, CH1 2DA

Ffôn: 01244 345082

e-bost: [chester.psr@hmcourts-service.gsi.gov.uk](mailto:chester.psr@hmcourts-service.gsi.gov.uk)

**SEFYDLIAD BORTHWICK** (ar gyfer ewyllysiau a brofwyd gan Lys Uchelfraint Efrog cyn 1858): Borthwick Institute, University of York, Heslington, York, YO10 5DD

Ffôn. 01904 321166, e-bost: trwy'r wefan ar [www.york.ac.uk/inst/bihr/](http://www.york.ac.uk/inst/bihr/)

**YR ARCHIFAU CENEDLAETHOL** (ar gyfer ewyllysiau a brofwyd gan Lys Uchelfraint Caergaint cyn 1858): The National Archives, Kew, Richmond, Surrey, TW9 4DU. Ffôn 020 8876 3444, e-bost: trwy'r wefan ar [www.nationalarchives.gov.uk](http://www.nationalarchives.gov.uk)